



TGAU

3010NA0-1



S24-3010NA0-1

DYDD GWENER, 14 MEHEFIN 2024 – BORE

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN UWCH

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Mae'r ddwy gerdd yn sôn am rwystro a chyfyngu rhyddid.

Cymharwch y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges/themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. [40]

Ofn

'Terrorism can hit us anywhere from any place.' – Gordon Brown

Pan fo holl rym tywyllwch dros y byd,
a rhyddid wedi'i fygwth ar bob tu,
pan fo cysgodion ar y ffyrdd i gyd
a phob un cornel stryd yn gysgod du,
pan nad oes dim ond dychryn ar y sgrîn
a dim ond nos yr ochr draw i'r llen,
pan fo pob ffrind yn sinistr a blin
a'r rhai mewn grym yn gweld y byd ar ben,
diffoddwch y teledu am y tro,
agorwch lenni'r lolfa led y pen,
cofleidiwch yr anwybod, ewch ag o
tu allan ar y stryd fel cylllell wen
i dorri drwy hualau'r ofnau sydd
yn cadw pawb yn saff rhag bod yn rhydd.

Hywel Griffiths

Mynd am dro mewn lockdown (eto)

Mae *min gan y mis bach heddiw,
ei fyseidd oer yn gwthio'u ffordd drwy 'nghot
wrth i mi grynu, a chodi'r zip jyst bach yn uwch.
Ond dwi *mas. Drwy'r drws ac am y llwybr,
ar fy nhro beunyddiol rownd y bloc
gan ei fod, medden nhw, yn llesol i'r enaid.

Dros y bont ac i'r dde, fel bob tro,
fy nhraed yn mynd heb feddwl, bron,
a dwi'n tynnu'n ffôn o 'mhoced i sgipio cân.
Difaru peidio gwisgo menig.

Dwi'n cyrraedd *estyll y *wetlands*
ac yn edrych o 'nghwmpas yn iawn am y tro cynta heddi.
Mae'r gwylanod yma, wrth gwrs,
yn sgowntio am grwstyn yn y golau oer,
a'r iâr ddŵr yn chwarae mig rhwng cynffonau'r *cyrs.
Sisial y brwyn bron yn tawelu ceir y *flyover*,
a sblash yn chwalu adlewyrchiad coch
boncyffion cwytros: dau *falard
sy'n credu y cawn nhw fwyd gan hon, wir.

Mae bywyd yma'n aros i ni, o hyd,
dim ond i ni fod â'r galon i ddod mas i gwrdd ag e.

Elen Ifan

*min – teimlad oer
*mas – allan
*cyrs/brwyn/cwyros – planhigion sy'n tyfu wrth ymyl dŵr
*estyll – planciau/darnau o bren
*falard – malard, math o hwyaden, aderyn